


2017-2022



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



CYNLLUN GWEITHREDU

RHEOLI CEIRW GWYLLT
YNG NGHYMRU

LLYW.CYMRU

CYNNWYS

03 Rhagair Ysgrifennydd
y Cabinet

05 Cyflwyniad

06 Rhoi'r camau
gweithredu ar waith

06 Y prif egwyddorion –
ein ffordd o ymdrin â
rheoli ceirw gwyllt

07 Strategaethau a
pholisïau eraill o eiddo
Llywodraeth Cymru

12 Sut mae'r Cynllun
Gweithredu wedi'i
gyflwyno

13 Cynllun gweithredu –
tabl o gamau gweithredu,
cyrff arweiniol ac asiantau
cyflenwi

21 Llywodraethu
a Monitro

21 Atodiad 1 – Fforwm
Ceirw Cymru

21 Grŵp Llywio
Ceirw Cymru

22 Atodiad 2 –
Rhestr termau
a byrfoddau

23 Mwy o Wybodaeth

RHAGAIR YSGRIFENNYDD Y CABINET

Ym mis Chwefror 2011 fe wnaethom lansio'r strategaeth Rheoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru a nododd ein hamcanion o ran rheoli ceirw gwyllt yng Nghymru. Fe wnaeth y cynllun gweithredu 5-mllynedd cysylltiedig, a ddaeth i ben yn 2016, ddechrau ar y gwaith i gyflawni amcanion y strategaeth ac mae wedi bod yn llwyddiannus wrth gwblhau ystod eang o gamau gweithredu. Rwyf yn awr yn falch o gyflwyno cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i wireddu ein gweledigaeth i Gymru elwa ar ei phoblogaeth o geirw gwyllt, mewn cydbwysedd â'r amgylchedd naturiol, cymdeithasol ac economaidd.

Er nad yw ceirw gwyllt mor niferus nac mor gyffredin yng Nghymru ag mewn rhannau eraill o'r DU, mae eu niferoedd a'u dosbarthiad yn cynyddu ynghyd â'u heffaith. Rydym mewn sefyllfa unigryw yng Nghymru gan ein bod yn gallu ymdrin â'r problemau posibl y gallai ceirw eu hachosi cyn i'r effeithiau fynd yn rhy fawr. Mae ceirw gwyllt yn rhan werthfawr o'n treftadaeth naturiol a gallant gyflawni rôl ecolegol bwysig. Ond ar ddwyseddau uchel, gallant gael effeithiau negyddol sylweddol ar goedwigaeth a choetiroedd, cynefinoedd â blaenoriaeth a fflora brodorol. Gall ceirw hefyd gael effaith leol ar amaethyddiaeth a gallent fod yn fectorau ar gyfer clefyd. Bydd cynnydd yn nifer y ceirw hefyd yn golygu mwy o risg o wrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau, sydd wedi dod yn broblem sylweddol mewn rhai ardaloedd yn y DU.

Heb reolaeth briodol, bydd ceirw yn effeithio'n uniongyrchol ar nifer o ddeilliannau strategaeth Coetiroedd i Gymru, ein hymrwymiaidau i amaethyddiaeth a datblygu gwledig, ac ymrwymiaidau cenedlaethol, rhyngwladol ac o fewn yr UE tuag at fioamrywiaeth. Maent yn fygythiad i dargedau Llywodraeth Cymru ynghylch ehangu coetiroedd, sy'n ymwneud â'n polisiau newid hinsawdd. Mae angen rheolaeth hefyd er mwyn lleihau neu liniaru'r risg sy'n deillio o sefydlu rhywogaethau ceirw estron ymledol yng Nghymru.

Rydym wedi ymrwymo i ddull mwy integredig o reoli tir yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'n polisi Rheoli Adnoddau Naturiol. Mae'r strategaeth ar gyfer rheoli ceirw gwyllt yng Nghymru yn pwysleisio pwysigrwydd ymdrin â rheoli mewn ffordd gydlynol ar lefel y dirwedd, gan gynnwys tîrfeddiannwyr, cyrff cyhoeddus a sefydliadau anllywodraethol. Dim ond drwy weithio mewn partneriaeth y gallwn gyda'n gilydd gyflawni'r deilliannau a nodwyd yn y strategaeth ac rwy'n falch fod cymaint o bartneriaid wedi dod at ei gilydd i gytuno ar y cynllun gweithredu hwn wedi'i ddiweddarau. Drwy weithredu fel hyn ein nod yw cynnal gwerth ceirw gwyllt fel rhan o'n treftadaeth naturiol a sicrhau, lle mae angen cymryd camau ymarferol i'w rheoli, bod hynny'n gynaliadwy yn ogystal â diogel, trugarog ac effeithiol.



Lesley Griffiths AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru



1. CYFLWYNIAD

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddarau hwn yn datblygu ar lwyddiannau'r cynllun gweithredu cychwynnol ar gyfer rheoli ceirw yng Nghymru, a oedd yn ymdrin â'r cyfnod 2011-2016. Mae'r cynllun newydd hwn yn nodi'r gweithgareddau yr ymgwymerir â nhw dros y 5 mlynedd nesaf i barhau i wireddu nodau ac amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru ar Reoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru. Mae'r Strategaeth, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011, yn edrych ar reoli ceirw gwyllt o safbwynt tymor hir ac mae'r cynllun gweithredu pum mlynedd sy'n cyd-fynd â hi yn nodi beth y mae gofyn iddo ddigwydd yn y tymor byr neu y mae angen iddo ddechrau digwydd gan barhau dros gyfnod hwy. Mae'r cynllun yn nodi pwy sy'n gyfrifol am arwain ar bob cam gweithredu i helpu i wireddu'r canlyniadau tymor hir, ond mae'n cydnabod y bydd angen gweithredu wedi'i gyd-drefnu gan nifer o sefydliadau os ydym i wireddu ein gweledigaeth fod **'Cymru'n elwa o'i phoblogaeth o geirw gwyllt, sydd mewn cydbwysedd â'r amgylchedd naturiol, cymdeithasol ac economaidd.'**

Mae'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu hwn ar gyfer 2017-2022 yn parhau wedi'u fframio o gwmpas y canlyniadau a nodir yn y Strategaeth ac mae'r 'Agenda Weithredu' yn cael ei defnyddio fel sail i adeiladu ar y gweithgareddau a'r partneriaethau rheoli ceirw sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.

Dyma'r deilliannau a nodwyd yn y strategaeth:

- Codi ymwybyddiaeth o geirw a'r effaith a gânt, yn rhai cadarnhaol a negyddol;
- Rheoli effeithiau ceirw;
- Lle mae'n bosibl, lleihau effaith rhywogaethau anfrodorol o geirw;
- Sicrhau bod rheoli ceirw yn cael ei gyflawni mewn ffordd gyfrifol, fedrus a moesegol;
- Sicrhau bod cig carw yn deillio o reoli ceirw gwyllt ar gael yn fwy eang i farchnadoedd lleol;
- Lleihau nifer y gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau yng Nghymru a pha mor ddifrifol ydynt;
- Monitro materion iechyd anifeiliaid a chlefydau mewn ceirw gwyllt ac ymdrin â hynny lle mae'n briodol; a
- Lleihau gweithgareddau anghyfreithlon yn ymwneud â cheirw gwyllt yng Nghymru i'r eithaf.

Datblygwyd partneriaeth gref ar gyfer gwireddu hyn a bydd gofyn cydweithio er mwyn gwireddu'r camau gweithredu yn yr ail gynllun gweithredu hwn gan nad oes modd cyflawni unrhyw un ohonynt drwy ymdrechion un unigolyn, grŵp neu sefydliad yn unig. Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i hyn ddigwydd ac i bartneriaid presennol a newydd sydd â diddordeb yn y gwaith o reoli ceirw gwyllt yng Nghymru gymryd rhan yn y gwaith pwysig o weithredu'r cynllun hwn.

2. RHOI'R CAMAU GWEITHREDU AR WAITH

Bydd Fforwm Ceirw Cymru (WDF) (Atodiad 1) yn parhau i fod yn allweddol i hwyluso'r cydweithredu sydd ei angen i gyflawni'r camau gweithredu. Gall tîrffeddiannwyr, cyrff cyhoeddus a sefydliadau anllywodraethol reoli ceirw drwy weithio gyda'i gilydd ar raddfa tirwedd.

Drwy weithredu fel hyn ein nod yw cynnal gwerth ceirw gwyllt fel rhan o'n treftadaeth naturiol a sicrhau, lle mae angen cymryd camau ymarferol i'w rheoli, bod hynny'n gynaliadwy yn ogystal â diogel, trugarog ac effeithiol.

Ystyrir bod codi ymwybyddiaeth yn nod allweddol i'r cynllun gweithredu hwn. Mae angen i hyn gael ei deilwra i amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan ddefnyddio ystod o sianelau cyfathrebu. Unwaith eto, bydd hyn yn gofyn am gydweithio er mwyn sicrhau bod negeseuon clir a chyson yn cael eu darparu'n briodol i'r gwahanol gynulleidfaoedd gan ddefnyddio'r lluo o gyfleoedd amrywiol i gyfathrebu sydd ar gael trwy gyfrwng y WDF a Phartneriaeth ehangach y Cynllun Ceirw.

3. Y PRIF EGWYDDORION – EIN FFORDD O YMDRIN Â RHEOLI CEIRW GWYLLT

Yn sail i'r camau gweithredu mae'r prif egwyddorion isod:

Gwerthfawrogi ceirw gwyllt: Mae ceirw gwyllt yn cael eu gwerthfawrogi fel rhan o'n treftadaeth naturiol, a dylai eu rheolaeth adlewyrchu hyn. Mae rhywogaethau brodorol yn arbennig yn gallu cyflawni swyddogaethau ecolegol pwysig a gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fioamrywiaeth. Ar yr un pryd mae angen cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y gwerthoedd cadarnhaol hyn a'r effeithiau negyddol sylweddol y gall ceirw eu cael ar amaethyddiaeth, coedwigaeth a'r amgylchedd ehangach.

Partneriaeth: Mae'r prif gyfrifoldeb am reoli ceirw yn gorffwys gyda thîrffeddiannwyr a rheolwyr tir, un ai'n berchenogion neu'n denantiaid. Gan fod ceirw gwyllt yn croesi terfynau o wneuthuriad dyn yn rheolaidd, mae cydweithredu ar raddfa tirwedd yn hollbwysig.

Rydym ni (a'n hasiantaethau) yn helpu i gynorthwyo tîrffeddiannwyr, rheolwyr tir ac eraill drwy fframwaith cytunedig ar gyfer rheoli ceirw gwyllt yn gynaliadwy fel y'i gosodir yn y Strategaeth. Rydym yn dal i ymrwymo i weithredu drwy bartneriaeth i gyd-drefnu, gwireddu ac adolygu'r fframwaith hwn ar reoli ceirw gwyllt. Credwn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy i amrywiaeth eang o randdeiliaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol weithio gyda'i gilydd.

Rheolaeth gynaliadwy: Yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rydym wedi ymrwymo i gyflawni rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn unol â'r 9 egwyddor a amlinellwyd. Mewn perthynas â cheirw gwyllt, byddwn yn cyflawni hyn drwy gyflwyno'r cynllun gweithredu hwn a'r strategaeth gysylltiedig drwy bartneriaeth. Mae angen rheoli ceirw gwyllt ar lefel y dirwedd er mwyn adlewyrchu dynameg eu poblogaeth, ond mewn cydbwysedd ag amgylcheddau graddfa lai ac yng nghyd-destun strategaethau tymor hir megis y bwriad i ehangu coetiroedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Diogelu lles ceirw: Rydym yn cadarnhau'r angen i sicrhau safonau lles uchel i geirw gwyllt, yn enwedig drwy ddefnyddio pobl gymwys, sydd wedi cael hyfforddiant, i reoli ceirw ac i ddefnyddio'r arferion gorau. Mae gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau yn fygythiad i les ceirw a gallant fod yn beryglus o ran iechyd y cyhoedd. Bygythiad arall i'w lles yw gweithgareddau anghyfreithlon fel herwheila, a lle mae'r boblogaeth ceirw yn cyrraedd dwysedd uchel mae mwy o risg o effeithiau niweidiol ar eu hiechyd.

Polisi wedi'i seilio ar dystiolaeth: Mae rheoli ceirw mewn modd cynaliadwy yn dibynnu ar dystiolaeth wyddonol gadarn, ac mae'n bwysig parhau i ddatblygu a herio'r sylfaen tystiolaeth fel y gall y rheolaeth ar geirw wella a gwireddu'i hamcanion.

Datblygu ar feganweithiau presennol: Rydym yn bwriadu parhau i adeiladu ar y gwaith helaeth sydd eisoes wedi ei wneud gan unigolion a sefydliadau, gan gynnwys drwy gyflwyno'r cynllun gweithredu cychwynnol. Byddwn yn cryfhau ac yn ymestyn gweithio mewn partneriaeth, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

4. STRATEGAETHAU A PHOLISIÂU ERAILL O EIDDO LLYWODRAETH CYMRU Y BYDD Y CYNLLUN GWEITHREDU RHEOLI CEIRW GWYLLT YNG NGHYMRU YN HELP I'W GWIREDDU.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith o nodau llesiant:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nod o greu "Cymru gydnerth" ac mae hefyd yn berthnasol i nodau "Cymru lewyrchus" a "Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang". Mae eisoes wedi'i sefydlu fel dull cydlynus ac integredig gyda gweithio drwy bartneriaeth wrth ei galon.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygiad cynaliadwy wrth gyflawni'r nodau hyn. Mae'n cyflwyno pum "ffordd o weithio" i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn bodloni'r "ffyrdd o weithio" hyn i gyflwyno'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Cafodd ei ddatblygu drwy gynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid gyda'r nod o gymryd camau nad yw eu heffaith yn fawr yn awr i atal problemau gyda cheirw rhag dod yn fwy o broblem yn y tymor hwy. Bydd y camau gweithredu yn cael eu darparu ar y cyd gan bartneriaid a byddant yn helpu i sicrhau deilliannau mewn polisïau a strategaethau eraill.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno dull o reoli adnoddau naturiol sy'n ymwneud â rheoli ein hamgylchedd naturiol mewn ffordd gynaliadwy gydgysylltiedig sy'n sicrhau deilliannau gwirioneddol i'r amgylchedd, pobl, yr economi a'n cymunedau. Y nod yw gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gyflwynir gan adnoddau naturiol Cymru wrth ddiogelu a datblygu cadernid systemau naturiol i barhau i ddarparu'r buddion hyn yn y tymor hir.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno naw egwyddor syml o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac mae pob un ohonynt yn cael eu bodloni gan strategaeth a chynllun gweithredu Rheoli Ceirw Gwylt:

- **Rheoli Addasol:** Rheoli yn addasol, drwy gynllunio, monitro ac adolygu camau gweithredu;
- **Graddfa:** Ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu;
- **Cydweithio ac ymgysylltu:** Hyrwyddo a chymryd rhan mewn cydweithio a chydweithredu;
- **Cyfranogiad y cyhoedd:** Gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn y gwaith o lunio penderfyniadau;
- **Tystiolaeth:** Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu dystiolaeth mewn perthynas ag ansicrwydd;
- **Buddion lluosog:** Ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol;
- **Camau ataliol:** Cymryd camau i atal difrod sylweddol i ecosystemau;
- **Tymor hir:** Rhoi ystyriaeth i ganlyniadau tymor byr, canolig a hir y camau gweithredu; a
- **Datblygu cadernid:** rhoi ystyriaeth i gadernid ecosystemau.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd fioamrywiaeth sy'n berthnasol i ystod o awdurdodau cyhoeddus a fydd yn helpu i wrthdroi'r gostyngiad a sicrhau cadernid tymor hir bioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae hefyd yn rhoi offer newydd i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i helpu i reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Bydd cytundebau rheoli tir yn caniatáu i CNC weithio gyda thirfeddianwyr i reoli eu tir mewn modd cynaliadwy. Bydd cynlluniau arbrofol yn galluogi CNC i dreialu ffyrdd newydd o weithio.

Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Ceirw Gwylt yn cyd-fynd yn dda ag uchelgeisiau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Maent yn uniongyrchol berthnasol i'r tair nodwedd allweddol a gyflwynwyd gan y Ddeddf: yr Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol; y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal. Dylai'r gwaith a wnaed eisoes i ddynodi Ardaloedd Blaenoriaeth i Geirw, yn asesu effeithiau a sefydlu rheolaeth ar y cyd i ymdrin ag effeithiau andwyol poblogaethau ceirw ar gynefinoedd allweddol fod yn gyfrannwr cryf at gyflwyno'r Ddeddf. Mae cyflwyno Datganiadau Ardal yn rhoi cyfle pwysig i feddwl am a datblygu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yn yr Ardaloedd Blaenoriaeth i Geirw ac i ystyried yr angen i gymryd camau pellach mewn Ardaloedd Blaenoriaeth i Geirw ychwanegol posibl.

Coetiroedd i Gymru (2009)

Mae Coetiroedd i Gymru yn nodi strategaeth 50-mlynedd Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer coetiroedd a choed, ac fe'i cefnogir gan gynllun gweithredu. Bydd yn fwy anodd gwireddu llawer o amcanion y strategaeth hon oni roddir sylw priodol i effeithiau negyddol ceirw.

Mae creu coetiroedd newydd yn amcan allweddol a chaiff hyn ei beryglu oni fydd effeithiau negyddol posibl ceirw yn cael eu rheoli. Rydym hefyd eisiau i'n coetiroedd fod yn fwy amrywiol mewn strwythur a rhywogaethau er mwyn eu gwneud yn gryfach a sylweddolir y bydd angen mynd i'r afael â phoblogaethau ceirw cynyddol os am gyflawni hyn.

Mae ceirw gwyllt brodorol yn rhan o'n bioamrywiaeth gyfoethog a lle cânt eu rheoli'n gynaliadwy gallant ychwanegu gwerth at goetiroedd presennol, yn cynnwys coetiroedd hynafol. Ond os yw dwyseddau ceirw yn mynd yn rhy uchel, gallant arwain at newidiadau niweidiol a allai effeithio ar gadernid cynefin y coetir a'r fioamrywiaeth a gefnoga. Heb reolaeth addas, gall poblogaethau ceirw achosi newidiadau tymor hir yng nghyfansoddiad a gwerth cynefin ein coetiroedd.

Mae cynnyrch coetir yn cyfrannu at economi Cymru a gallai effeithiau ceirw olygu goblygiadau ariannol gan gynnwys costau ychwanegol i amddiffyn coed, gwneud iawn am y difrod a achosir i goed ifanc drwy bori a hefyd y refeniw coed a gollir yn y dyfodol drwy'r effeithiau niweidiol ar ansawdd y coed.

Bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn cyfannu'n uniongyrchol at ddeilliannau canlynol strategaeth Coetiroedd i Gymru:

Deilliant 1: Mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy;

Deilliant 2: Ecosystemau coetiroedd yn iach ac yn gadarn;

Deilliant 4: Y gorchudd coetir yng Nghymru'n cynyddu;

Deilliant 16: Rheolaeth coetiroedd yn sicrhau stiwardiaeth amgylcheddol o safon uchel;

Deilliant 17: Coetiroedd a choed sydd o werth cadwraethol arbennig yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol; a

Deilliant 18: Bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chefnogi a choetiroedd brodorol yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol.

Cynllun Adfer Natur Cymru 2015

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn cynnwys:

Rhan 1: Mae ein Strategaeth ar gyfer Natur yn nodi ein hymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, y materion y mae angen i ni ymdrin â nhw, a'n hamcanion ar gyfer gweithredu. Mae'n nodi sut y bydd ein camau gweithredu cyfredol ac arfaethedig, yn enwedig drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a thrwy Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol, yn cyfrannu at wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru.

Rhan 2: Mae ein Cynllun Gweithredu yn nodi'r camau gweithredu hynny sydd wedi cael eu nodi yn benodol i gyflawni ein hamcanion i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Rhan 3: Bydd y Fframwaith Adfer Natur (ar y gweill) yn dangos strwythur llywodraethu ar gyfer y Cynllun Adfer Natur, a rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â chyflwyno gweithredu dros fioamrywiaeth yng Nghymru. Bydd hefyd yn diffinio'r mesurau atebolrwydd sy'n bodoli i sicrhau darpariaeth.

Yr uchelgais i anelu ati trwy'r Cynllun Adfer Natur yw:

'Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, oherwydd ei werth cynhenid, a sicrhau manteision parhaol i gymdeithas'.

Mae'r Cynllun Adfer Natur yn diffinio'r amcanion a'r camau gweithredu allweddol sydd eu hangen yng Nghymru i gyflawni ein uchelgais ac maent yn bodloni nod Cymru Gydnerth a'r ymrwymïadau byd-eang ac Ewropeaidd i atal colli bioamrywiaeth.

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth yn y gwaith o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd pennaf a gwella eu rheolaeth.

Amcan 3: Cynyddu cadernid ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd diraddedig a chreu cynefinoedd.

Amcan 4: Ymdrin â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro.

Amcan 6: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chefnogaeth ar gyfer cyflawni.

Bydd yn bwysig fod yna ymgysylltu cadarnhaol rhwng y Cynllun Adfer Natur a'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Ceirw Gwyllt. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Ceirw Gwyllt eisoes yn cofleidio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a gallant wneud cyfraniadau pwysig at bob un o amcanion y Cynllun Adfer Natur.

Rhaglen Natura 2000 LIFE

Mae yna 123 o nodweddion cynefin a rhywogaethau dynodedig ar y 92 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a'r 20 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yng Nghymru. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn cynnwys rhwydwaith Natura 2000.

Pwrpas Rhaglen Natura 2000 LIFE ar gyfer Cymru, a arweinir gan CNC yw galluogi Cymru i wneud cynnydd sylweddol tuag at ddod â rhywogaethau a chynefinoedd Natura 2000 i gyflwr ffafriol a helpu i gyflawni ei hymrwymïadau o dan y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar Ewropeaidd.

Mae Rhaglen Natura 2000 LIFE wedi creu 11 o Gynlluniau Gweithredu Thematig, ac mae pob un ohonynt yn rhoi manylion am gamau gweithredu strategol y rhoddir blaenoriaeth iddynt i ymdrin â materion mawr a risgiau sydd wedi eu nodi fel rhai sy'n cael effaith andwyol ar nodweddion Natura 2000 ar draws y rhwydwaith.

Mae Deilliant 3 y Strategaeth Rheoli Ceirw Gwyllt a'r camau gweithredu cysylltiedig ar gyfer rhywogaethau o geirw estron yn arbennig o berthnasol i'r cynllun thematig ar rywogaethau a phathogenau goresgynnol anfrodorol.

Fe wnaeth y cynllun thematig ar reoli coetiroedd nodi'n benodol effeithiau negyddol ceirw yn pori fel pwysau sy'n bodoli ar hyn o bryd a bygythiad i ACA coetir lled-naturiol yn y dyfodol. Mae'n cyfeirio'n helaeth at reoli ceirw, gan wneud defnydd o'r ddwy Ardal Blaenoriaeth Ceirw a sefydlwyd o dan y Strategaeth Rheoli Ceirw Gwyllt er mwyn dangos yr angen am weithredu. Mae hefyd yn estyn cefnogaeth glir i'r Strategaeth Rheoli Ceirw Gwyllt a'r Cynllun Gweithredu fel elfennau allweddol o ran cyflawni amcan y Cynllun Thematig Rheoli Coetiroedd i wella cyflwr ACA coetir lled-naturiol.

Rheoliad 1143/2014 yr UE ar Rywogaethau Estron Goresgynol

Daeth y rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2015, ac ar ôl hynny roedd gan y Comisiwn Ewropeaidd 12 mis arall i gynnig rhestr statudol o rywogaethau y bydd y rheoliad hwn yn berthnasol ar eu cyfer. Unwaith y bydd y rhestr yn cael ei mabwysiadu, bydd gan yr Aelod-Wladwriaethau hyd at 18 mis i roi'r mesurau sy'n ofynnol ar waith. Bydd y rhywogaethau ar y rhestr yn destun asesiadau risg a chynlluniau gweithredu; bydd yn ofynnol i Aelod-Wladwriaethau gael gweithdrefnau rheoli a chadw golwg ar waith fel os/pan fydd rhywogaeth yn cyrraedd y gellir ei chanfod a'i hasesu'n gyflym i weld pa mor ymarferol yw ei rheoli. Os yw rheoli yn ymarferol mae'n rhaid i hyn ddechrau o fewn tri mis o fod wedi canfod y rhywogaeth. Yn ogystal, ar gyfer rhywogaethau cyffredin a heb fod yn rheoladwy mae gofyniad i gael cynlluniau rheoli ar waith.

O'r ddwy rywogaeth o geirw estron sy'n bresennol yn y gwyllt yng Nghymru, dim ond Mwentjac sy'n ymddangos ar y rhestr statudol o rywogaethau sy'n berthnasol i'r rheoliadau. Mae Asesiad Risg Prydain gyfan wedi cael ei baratoi ac mae cynllun rheoli wedi cael ei roi ar waith.

Mae Deilliant 3 y Strategaeth ar gyfer Rheoli Ceirw Gwyllt ac unrhyw camau gweithredu sy'n gysylltiedig mewn Cynllun Gweithredu yn ymdrin yn benodol â gofynion y Rheoliadau.

Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020 – Strategaeth Fwyd ar gyfer Cymru

Mae Bwyd o Gymru wedi'i seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynhyrchu a bwyta bwyd. Mae'n derbyn na all y Llywodraeth gyflawni hyn ar ei phen ei hun, ac mae gan ddiwydiant a rhanddeiliaid eraill ran allweddol i'w chwarae yn ei gwireddu.

Mae'r Strategaeth yn ystyried materion trawsbynciol fel iechyd, diwylliant bwyd ac addysg, diogelu cyflenwadau bwyd, cynaliadwyedd amgylcheddol a datblygu cymunedol fel sail i ymdrin â pholisi bwyd mewn ffordd integredig yng Nghymru.

Mae'r strategaeth yn cael ei chefnogi gan y cynllun gweithredu "Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020". Mae'r weledigaeth yn un o dwf gwyrdd lle mae busnesau yn geidwaid adnoddau naturiol Cymru; maent yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol gyfrifol; ac yn cynhyrchu bwyd diogel.

Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Ceirw Gwyllt yn cefnogi'r weledigaeth hon drwy gamau gweithredu sy'n cefnogi ac yn annog ffyrdd o ychwanegu gwerth at gig carw gwyllt drwy ddilyn arfer gorau, cadw at Reoliadau Hylendid ac annog prosesu a gwerthu cig carw Cymreig yn lleol.

5. SUT MAE'R CYNLLUN GWEITHREDU WEDI'I GYFLWYNO

Mae'r Cynllun Gweithredu ar ffurf tabl sy'n dangos:

Y deilliannau rydym yn dymuno'u cyflawni sydd wedi eu nodi yn *Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru*.

Camau gweithredu a fydd yn cyfrannu tuag at wireddu'r deilliannau.

Cyrff Arweiniol sy'n ymwneud â chyflwyno'r camau sydd â rôl o ran cyllid a/neu gydlynw, ac felly rôl weithredol wrth fwrw ymlaen â'r camau gweithredu i sicrhau eu bod yn cael eu darparu.

Asiantau Cyflenwi sef y grwpiau a'r sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r camau gweithredu.

Bydd y cyrff arweiniol arfaethedig sydd wedi'u nodi ar gyfer pob cam gweithredu yn cael cymorth gan lawer o sefydliadau a fydd yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r camau. Mae sefydliadau Partneriaeth y Cynllun Ceirw ac aelodau eraill y WDF yn allweddol o ran cyflawni'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn y cynllun hwn. Byddant yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi'r cyrff arweiniol.



6. CYNLLUN GWEITHREDU – TABL O GAMAU GWEITHREDU, CYRFF ARWEINIOL AC ASIANTAU CYFLENWI

Outcome 1: Raise awareness of deer and their impacts, both positive and negative.

Cam gweithredu	Corff Arweiniol	Asiant Cyflenwi	Amseru
1.1 Cynnal cynllun cyfathrebu Rheoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru gyda mewnbwn gan bob rhanddeiliad perthnasol. Hyrwyddo'r negeseuon allweddol: • Ble mae'r ceirw? – pa rywogaethau sydd i'w cael yng Nghymru, ble maen nhw a beth maen nhw'n ei gyfrannu i'r amgylchedd, y gymdeithas a'r economi. • Pam rheoli ceirw? – manteision rheoli ceirw'n gynaliadwy yng Nghymru. • Sut mae rheoli ceirw? – hyrwyddo Arfer Gorau a chymeradwyo safonau a rheoli moesegol. • Pwysigrwydd monitro presenoldeb ac effeithiau ceirw a sut mae cyfrannu at hyn. • Pwysigrwydd lleihau gweithgareddau anghyfreithiol yn ymwneud â cheirw gwyllt i'r eithaf – annog riportio a phlisma ar sail mwy o wybodaeth.	CNC	DI Ltd/ DIP/ WDF	Cynnal ar gyfer cyfnod y Cynllun Gweithredu ac adolygu yn flynyddol.
1.2 Gweithredu'r cynllun cyfathrebu • Cynnwys pob aelod o'r DIP (Partneriaeth y Cynllun Ceirw) a WDF wrth gyflwyno'r negeseuon allweddol, y dylid eu haddasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. • Archwilio'r defnydd o sianeli cyfathrebu newydd, gan gynnwys pobl eraill a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gysylltu â'r gymuned fusnes wledig.	DI Ltd	WDF a DIP	Lansio Cynllun Cyfathrebu ar ei newydd wedd i Bartneriaeth Cynllun Ceirw (DIP) Cymru erbyn haf 2017 a pharhau i'w weithredu ar gyfer cyfnod y Cynllun Gweithredu.

Deilliant 2: Rheoli effeithiau ceirw.

Cam gweithredu	Corff Arweiniol	Asiant Cyflenwi	Amseru
2.1 Datblygu protocol i gasglu data o'r ffynonellau mwyaf cost effeithiol er mwyn monitro presenoldeb ceirw yng Nghymru.	CNC	DI Ltd	Diweddaru'r Protocol drafft i adlewyrchu'r datblygiadau newydd mewn trin data gan DI erbyn haf 2017.
2.2 Gweithredu'r protocol. - Casglu data. - Casglu a dehongli data dienw. - Paratoi adroddiad blynyddol am y canlyniadau i'r WDF a DIP.	DI Ltd	WDF a DIP	Am hyd y Cynllun Gweithredu. Adrodd yn flynyddol i WDF a DIP.
2.3 Atgyfnerthu a datblygu'r rheolaeth gydweithredol ymhellach yn y tair Ardal Blaenoriaeth Ddaeryddol sefydledig lle mae effeithiau yn peri pryder arbennig – Dyffryn Gwy Isaf, Dyffryn Elwy a Dyffryn Teifi. Gwerthuso'r ymagwedd trwy gyhoeddi astudiaethau achos ar gyfer yr Ardaloedd Blaenoriaeth a diweddaru'r rhain bob 5 mlynedd.	CNC	DI Ltd	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
2.4 O Gam Gweithredu 2.2 nodi mwy o ardaloedd daearyddol gyda blaenoriaeth lle mae effeithiau negyddol yn peri pryder arbennig a lle mae angen i reoli cydweithredol ar raddfa leol a thirwedd gael ei gefnogi, fel a phan fydd adnoddau ar gael.	CNC	DI Ltd	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
2.5 Sicrhau bod rheoli effaith Ceirw yn cael ei adlewyrchu yn y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol ac yn cael ei gynnwys yn y Datganiadau Ardal i'w llunio mewn ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 LIC.	CNC a LIC	CNC a LIC	Am hyd y Cynllun Gweithredu.

2.6 Monitro datblygiadau o ran ymchwil ceirw ac yn benodol mewn dulliau rheoli amgen ac ystyried a ellid eu defnyddio yng Nghymru.	LIC	LIC/DI Ltd	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
2.7 Darparu grantiau i dirfeddianwyr/ rheolwyr drwy gynlluniau perthnasol a phriodol i gefnogi rheoli ceirw yng Nghymru. - Hyrwyddo argaeledd grantiau i WDF, DIPs ac eraill sydd â diddordeb mewn rheoli ceirw. - Adolygu'r nifer sy'n derbyn grantiau.	LIC	LIC, DI Ltd a WDF	Am hyd y Cynllun Gweithredu. Adolygu'r nifer sy'n derbyn grantiau 2019.

Deilliant 3: Lle mae'n bosibl, lleihau effaith rhywogaethau estron o geirw.

Cam gweithredu	Corff Arweiniol	Asiant Cyflenwi	Amseru
3.1 Datblygu, cynnal a diweddarau cynlluniau gweithredu rhywogaethau unigol ar gyfer sica a mwntjac yng Nghymru.	WBP – Grŵp INNS	CNC	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
3.2 Gweithredu'r cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau penodol. Ymgymryd ag ymgyrch gyfathrebu i WDF, DIP a rhanddeiliaid perthnasol eraill ar gyfer Cynllun Gweithredu'r mwntjac.	LIC/CNC	CNC/DIP a WDF	Am hyd y Cynllun Gweithredu. Ymgyrch gyfathrebu erbyn Rhagfyr 2018.
3.3 Monitro Rhywogaethau Goresgynnol Anfroddorol (INNS) o ran rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r newydd, yn dianc neu'n coloneiddio a chymryd camau priodol yn ôl yr angen.	CNC	DIP/DI Ltd a WDF	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
3.4 Lle bo modd nodi a monitro parciau a swau fel ffynonellau posibl o achosion o INNS yn dianc yn y dyfodol.	CNC	CNC	Am hyd y Cynllun Gweithredu.

Deilliant 4: Sicrhau bod rheoli ceirw yn cael ei gyflawni mewn ffordd gyfrifol, fedrus a moesegol.

Cam gweithredu	Corff Arweiniol	Asiant Cyflenwi	Amseru
4.1 Ymgymryd â rheoli ceirw ar Ystad CNC ac Ystad Sefydliad Seilwaith Amddiffyn (DIO) mewn modd cyfrifol, cymwys a moesegol yn unol â Chanllawiau Arfer Gorau â'r Dystysgrif Llech-hela Ceirw (DSC).	CNC/DIO	CNC/DIO	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
4.2 Annog y sector preifat, mudiadau gwirfoddol a chyrff cyhoeddus eraill sy'n dirfeddianwyr/rheolwyr tir i reoli ceirw gwyllt yn unol â'r Canllawiau Arfer Gorau a safon DSC. • Parhau i ddarparu digwyddiadau Arfer Gorau a hyfforddiant DSC. • Sefydliadau Partneriaeth DIP Cymru i annog, cefnogi a lle bo'n briodol, i barhau i gynnal sgiliau a gweithgareddau datblygu ar gyfer deiliaid DSC 1 a 2.	LIC	DIP/DI Ltd a WDF	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
4.3 Cynnal cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'r Dystysgrif Hela Ceirw (DSC) fel y meincnod i hyfforddiant hela.	LIC	LIC	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
4.4 Cynnal a datblygu canllawiau Arfer Gorau drwy Weithgor Arfer Gorau DIP, gan sicrhau cynrychiolaeth uniongyrchol o Gymru.	CNC	DIP BPWG	Am hyd y Cynllun Gweithredu.



Deilliant 5: Fod cig carw yn deillio o reoli ceirw gwyllt ar gael yn fwy eang i farchnadoedd lleol.

Cam gweithredu	Corff Arweiniol	Asiant Cyflenwi	Amseru
5.1 Gwella ymwybyddiaeth manwerthwr, arlwywyr a'r cyhoedd o gig carw gwyllt Cymru.	LIC	DIP/WDF – BASC/CA	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
5.2 Annog defnyddio Canllawiau Arfer Gorau a chadw at y Rheoliadau Hylendid yn ymwneud â chyflenwi cig o anifeiliaid hela gwyllt. Parhau i ddarparu digwyddiadau Arfer Gorau.	FSA	CNC/DIP a WDF	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
5.3 Parhau i gefnogi ac annog ffyrdd o ychwanegu gwerth at gig carw gwyllt o Gymru, gan gynnwys cynlluniau grant priodol. Hyrwyddo argaeledd grant i WDF ac eraill sydd â diddordeb mewn rheoli ceirw.	LIC	LIC/DIP a WDF	Am hyd y Cynllun Gweithredu.

Deilliant 6: Lleihau nifer y gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau yng Nghymru a pha mor ddifrifol ydynt.

Cam gweithredu	Corff Arweiniol	Asiant Cyflenwi	Timing
6.1 Annog defnyddio gwefan Deer Aware i riportio digwyddiadau. - Cynnal ymgyrch yn y cyfryngau. - Codi ymwybyddiaeth gyda WDF, DIP, Awdurdodau Priffyrdd, Heddluoedd.	DI Ltd	DIP/WDF/ Awdurdodau Priffyrdd	Ymgyrch flynyddol yn y cyfryngau cymdeithasol. Codi ymwybyddiaeth erbyn Hydref 2017.
6.2 Gwerthuso'r nifer o ddamweiniau rhwng ceirw a cherbydau yng Nghymru. - Datblygu dull ffurfiol i ganiatáu gwerthuso. - Cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer Trafnidiaeth LIC er mwyn nodi nifer y gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau ac unrhyw broblemau y mae angen gweithredu yn eu cylch.	DI Ltd	DI Ltd	Datblygu mecanwaith ffurfiol erbyn Haf 2017. Cynhyrchu adroddiad blynyddol erbyn Rhagfyr bob blwyddyn.

6.3 Gweithredu mewn ffordd wedi'i thargeddu i ddelio â'r problemau a nodir yn 6.2.	Trafnid-iaeth LIC	Trafnid-iaeth LIC/ Awdurdodau Priffyrdd	Wrth i broblemau gael eu nodi.
6.4 Annog cynlluniau ymateb i wrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau wedi eu cydlynu'n lleol sy'n cynnwys yr heddlu a rhanddeiliaid lleol i gynorthwyo gyda gwrthdrawiadau rhwng ceirw a cherbydau.	WDF	WDF/ Awdurdodau Priffyrdd/ Heddluoedd	Am hyd y Cynllun Gweithredu.

Deilliant 7: Monitro materion iechyd anifeiliaid a chlefydau mewn ceirw gwyllt ac ymdrin â hynny lle mae'n briodol.

Cam gweithredu	Corff Arweiniol	Asiant Cyflenwi	Amseru
7.1 Lle mae'n briodol cefnogi monitro ac ymchwil i TB gwartheg mewn ceirw gwyllt. - Cynnal y cytundebau ar gyfer darparu samplau i'w monitro. - Cynnal protocol ar gyfer gwerthuso, adrodd a rhoi adborth ar ddata monitro.	LIC-OCVO	CNC/WDF/ DIP	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
7.2 Cydymffurfio â Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, gan sicrhau bod yr holl glefydau hysbysadwy o dan y gorchymyn yn cael eu hadrodd i'r awdurdod perthnasol. Sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu hanfon yn ôl. Parhau i ddarparu digwyddiadau arfer orau.	LIC-OCVO	CNC/DIO	Am hyd y Cynllun Gweithredu.

Deilliant 8: Lleihau gweithgareddau anghyfreithlon yn ymwneud â cheirw gwyllt yng Nghymru i'r eithaf.

Cam gweithredu	Corff Arweiniol	Asiant Cyflenwi	Amseru
8.1 Cynyddu'r gudd-wybodaeth sydd ar gael drwy annog riportio troseddau sy'n gysylltiedig â cheirw, gan gynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â: - defnydd anghyfreithlon o ddrylliau, - cymryd, cludo a rhyddhau ceirw gwyllt yng Nghymru.	Grŵp Gorfodaeth Troseddau Bywyd Gwyllt (WCEG) WBP	WBP WCEG	Am hyd y Cynllun Gweithredu.

8.2 Dynodi potsio ceirw fel blaenoriaeth o ran troseddau bywyd gwyllt yng Nghymru.	WBP WCEG	WBP WCEG	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
8.3 Ymateb i dystiolaeth o droseddau cysylltiedig â cheirw yng Nghymru mewn modd cymesur, gan wneud y defnydd gorau o gudd-wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael.	WBP WCEG	WBP WCEG	Wrth i ddigwyddiadau ddigwydd.
8.4 Annog peidio â symud neu ledaenu INNS yn fwriadol.	WBP WCEG	WBP WCEG	Am hyd y Cynllun Gweithredu.
8.5 Codi ymwybyddiaeth o'r deddfau sy'n ymwneud â rhyddhau INNS a pham mae hyn yn fater pwysig.	WBP WCEG	WBP WCEG	Am hyd y Cynllun Gweithredu.

Deilliant 9: Monitro ac adolygu

Cam gweithredu	Corff Arweiniol	Asiant Cyflenwi	Amseru
9.1 Monitro, adolygu ac adrodd ar y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.	WDSG	DI Ltd	Adroddiad blynyddol i WDF a DIP yn yr Hydref bob blwyddyn.
9.2 Ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth bob 10 mlynedd a'r cynllun gweithredu bob 5 mlynedd.	LIC	CNC	Cychwyn yr adolygiad(au) nesaf ym mis Ebrill 2022 a gorffen y gwaith erbyn Rhagfyr 2022.
9.3 Adolygu llywodraethu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru. • Cadarnhau perchnogaeth o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu. • Cadarnhau rôl a theitl y grwpiau sy'n gweithio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys aelodaeth a chylch gorchwyl.	LIC	CNC	Erbyn Hydref 2017.

7. LLYWODRAETHU A MONITRO

Mae cyflwyno ein Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn dibynnu ar Fforwm Ceirw Cymru, sy'n cynnwys partneriaid o'r Cynllun Ceirw yng Nghymru, a rhanddeiliaid eraill. Mae Grŵp Llywio Ceirw Cymru (WDSG) yn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu, gyda chefnogaeth ysgrifenyddol a ddarperir gan y Deer Initiative Ltd.

Bydd cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn cael ei fonitro gan y WDSG a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i Fforwm Ceirw Cymru a Phartneriaeth y Cynllun Ceirw. Bydd adolygiad llawn o'r Cynllun Gweithredu yn cael ei gynnal ar ddiwedd y cyfnod o bum mlynedd a bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio i fod yn sail i'r gwaith o baratoi'r cynllun pum mlynedd nesaf.

Gwelir aelodaeth y cyrff uchod yn Atodiad 1.

ATODIAD 1 – FFORWM CEIRW CYMRU

Mae'r Cynllun Ceirw yn bartneriaeth eang o sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n ymroi i sicrhau bod poblogaeth gynaliadwy ac iach o geirw gwyllt yn cael ei sefydlu a'i chynnal yng Nghymru a Lloegr. Yng Nghymru, mae partneriaid y Cynllun Ceirw a rhanddeiliaid eraill yn ffurfio Fforwm Ceirw Cymru, sy'n cyfarfod yn flynyddol ac yn gweithio ar y cyd i gyflawni'r cynllun gweithredu ac amcanion y Strategaeth ehangach.

Aelodau Fforwm Ceirw Cymru yw:

Y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Saethu a Chadwraeth

Cymdeithas Ceirw Prydain

Confor

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

Y Gynghairir Cefn Gwlad

Forest Research

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

NFU Cymru

Sefydliad Cenedlaethol y Ciperiaid

Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid

Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt

Clwb St Hubert Prydain Fawr

Cymdeithas Ceirw Milfeddygol

Coed Cadw

Llywodraeth Cymru

GRŴP LLYWIO CEIRW CYMRU

Mae'r Grŵp Llywio Ceirw Cymru yn goruchwyllo ac yn adrodd ar y gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan aelod annibynnol o Fforwm Ceirw Cymru. Mae Grŵp Llywio Ceirw Cymru yn cael ei gefnogi gan adain weithredol y Cynllun Ceirw – Deer Initiative Ltd ac yn cynnwys:

Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Deer Initiative Ltd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Cynllun Ceirw; Ffôn: 01691 887113
www.thedeerinitiative.co.uk

ATODIAD 2 – RHESTR TERMAU A BYRFODDAU

Bioamrywiaeth: Yr amrywiaeth ecosystemau ac organebau byw (rhywogaethau), yn cynnwys amrywiadau genetig rhwng rhywogaethau.

Arfer gorau: Safonau cydnabyddedig ar gyfer rheoli ceirw yng Nghymru fel y maent yn cael eu diffinio yn y Canllawiau Arfer Gorau a gyhoeddwyd. Gellir lawrlwytho'r rhain am ddim o: www.thedeerinitiative.co.uk/best_practice/

Tystysgrif Llech-hela Ceirw (DSC): Safon y diwydiant ar gyfer hyfforddi ac asesu medr helwyr ceirw. Mae DSC 1 yn cynnwys adnabod, arholiad ysgrifenedig a phrawf saethu; mae DSC 2 yn cynnwys saethu tri charw a'u paratoi ar gyfer y gadwyn fwyd ym mhresenoldeb asesydd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: www.dmq.org.uk

DI Ltd: Deer Initiative Ltd – cwmni elusennol cyfyngedig trwy warant sy'n cefnogu'r DIP ac yn fan cyswllt ar gyfer cydlyn, cyfathrebu a rhoi cyngor ar geirw i'r Llywodraeth a phartneriaid eraill.

DIO: Sefydliad Seilwaith Amddiffyn.

DIP: Partneriaeth y Cynllun Ceirw – partneriaeth eang o gyrff y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n ymwneud â chyflawni a chynnal poblogaeth gynaliadwy ac iach o geirw gwyllt yng Nghymru a Lloegr.

DIP BPWG: Partneriaeth y Cynllun Ceirw – Gweithgor Arfer Gorau.

DSC: Mae safon DSC a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) yn bodoli ar gyfer ymarferwyr sy'n ymwneud â rheoli ceirw, boed hynny fel galwedigaeth neu hamdden. Mae'r NOS yn ddisgrifiad o'r hyn y disgwylir i ymarferwyr ei wybod a gallu ei wneud. Maent yn cael eu datblygu a'u cynnal gan Grŵp Diwydiant Rheoli Bywyd Gwyllt a Gêm Cyngor Sgiliau Sector Lantra sy'n cynnwys sbectrwm eang o gyflogwyr a sefydliadau cynrychioliadol o'r sector ceirw gwyllt. Maent felly yn safonau sy'n deillio o ddiwydiant ac a gymeradwywyd gan ddiwydiant.

Gall ymarferwyr brofi eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn amgylchedd rheoledig yn erbyn y NOS trwy gyfrwng dyfarniadau, sy'n ofynnol mewn rhai achosion gan gyflogwyr, rheolwyr tir a pherchnogion. Mae gan gyrff dyfarnu brosesau sy'n darparu asesiadau o wybodaeth a pherfformiad yn erbyn y safonau, yn rhannol neu yn gyfan, yn dibynnu ar yr hyn y mae'r dyfarniad yn ei gynnig. Y dyfarniadau mwyaf cyffredin yn y sector ceirw gwyllt yw'r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) a Chymwysterau Galwedigaethol yr Alban (SVQ), a'r Dystysgrif Llech-hela Ceirw (DSC) a ddyfernir gan y Cymwysterau Rheoli Ceirw (DMQ). Mae pob un o'r cymwysterau hyn yn defnyddio'r NOS fel eu meini prawf perfformiad ac asesu.

Awgrymwyd nifer o newidiadau i'r ffordd y mae safon y DSC yn cael ei gyflwyno a'i asesu. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu gan DMQ ar hyn o bryd, ac nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau eto.

FSA: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
www.food.gov.uk/business-industry/farmingfood/wildgameguidance

INNS: Rhywogaethau Goresgynnol Anfroddol.

CNC: Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhanddeiliaid: Mewn perthynas â cheirw, pobl neu sefydliadau sydd â diddordeb mewn ceirw a rheoli ceirw neu dir lle mae ceirw'n bresennol.

Llech-hela: Y broses o ddethol a chwlio ceirw gwyllt.

Rheoli Ceirw yn Gynaliadwy: Mae rheoli ceirw gwyllt yn awr ac yn y dyfodol, yn digwydd ochr yn ochr â swyddogaethau cymdeithasol, economaidd ac ecolegol cefn gwlad Cymru. Dylid ymgymryd â'r rheolaeth mewn ffordd gydweithredol gan ddilyn arfer gorau.

Cig carw: Cig wedi'i baratoi o garcas carw.

WBP – INNS: Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Grŵp Rhywogethau Goresgynnol Anfroddorol.

WBP – WCEG: Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Grŵp Gorfodaeth Troseddau Bywyd Gwyllt.

WDF: Fforwm Ceirw Cymru – Partneriaid y Cynllun Ceirw yng Nghymru a phartïon eraill â diddordeb.

WDSG: Grŵp Llywio Ceirw Cymru – sy'n goruchwyllo cyflawni'r cynllun gweithredu.

WG: Llywodraeth Cymru.

Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed sydd ar gael yn rhad ac am ddim oddi ar: www.gov.wales/topics/environmentcountryside/forestry/our-strategy/?lang=cy